# Cynhadledd Safonau Cymru 2010 – 'Rhoi'r Theori ar Waith'

**14 Hydref 2010, Neuadd y Ddinas Caerdydd**

## Nodiadau i Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd

**Cyng. David Clay**

Agorwyd y Gynhadledd gan Jon House, Prif Weithredwr Cyngor Dinas Caerdydd a benodwyd i'r swydd yn ddiweddar. Yn ei gyflwyniad, pwysleisiodd mor bwysig yw Safonau a Moeseg yn y bywyd cyhoeddus yn enwedig yn yr hinsawdd bresennol.

Y pedwar prif siaradwr oedd:

**Paul Hoey – Pennaeth Cysylltiadau Strategol – 'Standards for England'.**

Trafododd Paul y newidiadau oedd ar y gweill yn Lloegr i gael gwared â'r Awdurdod Safonau Cenedlaethol a'r trefniadau cyfredol – dim ond oriau cyn iddo gael ei ddatgan yn San Steffan. Bydd Safonau yn cael eu gadael i'r blwch pleidleisio ond bydd trosedd newydd yn cael ei chreu o "beidio datgan diddordeb". Awgrymodd y byddai Awdurdodau Lleol yna'n cael sefydlu eu "fframwaith moesegol" eu hunain.

**Kate Berry - Swyddog Monitro, Dinas Caerdydd a Chadeirydd Cymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr, Cangen Cymru**

Trafododd Kate gystal y mae Safonau a Moeseg yn cael eu hyrwyddo ledled Cymru a rhoddodd rai enghreifftiau o'r gwaith yn ei hawdurdod ei hun.

**Jeff Cotterell – Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Môn**

Amlygodd Jeff rai o'r heriau sy'n wynebu ei Bwyllgor a phwysleisiodd bod angen i Gynghorwyr dderbyn yr angen i fod yn "broffesiynol" a derbyn y rhwymedigaeth i "ddysgu" drwy hyfforddiant – hyfforddiant, hyfforddiant, hyfforddiant oedd byrdwn ei neges.

**Peter Tyndall – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Rhoddodd Peter fanylion ei lwyth gwaith, y math o gwynion sy'n cyrraedd ei swyddfa a'r canran bychan sy'n cael eu harchwilio mewn gwirionedd. Roedd o'r farn bod y system a fabwysiadwyd yng Nghymru yn gweithio'n dda ac er bod adolygiad hwyrach yn beth iach, nid oedd yn gweld unrhyw reswm i ddilyn ôl troed Lloegr. Ar hyn o bryd, roedd yn profi gostyngiad yn y nifer o gwynion ynghylch y Cod Ymddygiad a dehonglai hyn fel gwell agwedd tuag at y rhai hynny sydd yn y bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

Byddai nifer o heriau yn y dyfodol o ganlyniad i'r toriadau cyllidebol oedd ar ddod a disgwyliai gynnydd yn y nifer o gwynion, yn enwedig yng nghyswllt camweinyddu o ran y rhai hynny y'u tramgwyddid gan doriadau mewn gwasanaethau.

**Peter Davies – Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru** Manylodd Peter ynghylch y nifer o achosion a anfonwyd i'r Panel Dyfarnu, y penderfyniadau a'r sancsiynau a orfodwyd. Ei neges oedd " mae'r system gyfredol yn gweithio yn dda felly peidiwch ag ymyrryd â hi".

## Materion Cyngor Tref/Cymuned

Arweiniwyd y gweithdy hwn gan Ken Burton – Swyddog Hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer Un Llais Cymru.

Parhaodd Ken ar thema Cynhadledd Un Llais Cymru'r wythnos flaenorol - yr angen i Gynghorwyr Tref a Chymuned fod yn fwy proffesiynol a'r angen am hyfforddiant, hyfforddiant, hyfforddiant. Amlinellodd sut roedd rhai awdurdodau arweiniol wedi darparu hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn eu hardal hwy gan grybwyll Powys yn arbennig. Roedd Un Llais Cymru wedi trefnu nifer o sesiynau hyfforddi ar nifer o bynciau gwahanol ac roedd rhai Cynghorau a Chynghorwyr wedi cymryd rhan yn y sesiynau hyn.

Trafododd y grŵp 6 sefyllfa – enghreifftiau penodol a'r materion sy'n gysylltiedig â datgan diddordeb – boed yn bersonol neu'n rhagfarnllyd. Cafwyd sawl barn wahanol ar y rhain a oedd yn profi bod y pwnc datgan diddordeb yn bwnc cymhleth iawn.

Cafwyd bore tu hwnt o ysgogol a rhai syniadau defnyddiol y gellid eu defnyddio yn y Cynghorau Tref a Chymuned yng Ngwynedd.

### Pwyllgorau Safonau a Moeseg Rhagweithiol

Bod yn rhagweithiol

Arweiniwyd y sesiwn gan un o uwch reolwyr Cyngor Dinas Caerdydd ac er nad oedd yn ymwneud â'r Pwyllgor Safonau a Moeseg ar hyn o bryd, roedd wedi ymwneud â chraffu yn ei gyflogaeth flaenorol yng Nghyngor Dinas Bryste.

Roedd Mr Akmal Hanuk, Cadeirydd Pwyllgor Safonau a Moeseg Cyngor Caerdydd hefyd yn bresennol.

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried 4 prif bwynt:-

1. Gwybod beth i'w drafod
2. Rheoli Rhaglen
3. Capasiti
4. Arddulliau a Ffurfiau Cyfarfodydd

Gwybod beth i'w drafod:

Yr angen cyntaf oedd gwybod beth oedd 'cylch gorchwyl' y pwyllgor. Mae cylch gorchwyl Cyngor Dinas Caerdydd wedi ei argraffu ar frig pob rhaglen.

A yw'r cylch gorchwyl yn berthnasol i dasg gyfredol y pwyllgor? A yw holl aelodau'r pwyllgor yn gwybod beth yw'r cylch gorchwyl? Ni ddylid ei ystyried fel ataliad a dylid manteisio'n llawn ar ei baramedrau eang. Pryd gafodd ei adolygu ddiwethaf? A yw'r pwyllgor o'r farn y dylid ei adolygu?

Prif nod cael Pwyllgor Safonau a Moeseg rhagweithiol yw “cynorthwyo a chefnogi’r” Cyngor ac ni ddylid ei weld yn “plismona’r” Cyngor.

Os yw aelodau pwyllgor am drafod safonau a moeseg y Cyngor, dylent fod yn hollol ymwybodol o ymddygiad a gweithrediadau aelodau yn amryfal gyfarfodydd y Cyngor. Awgrymwyd y dylai rhai aelodau annibynnol eistedd i mewn ar gyfarfodydd cyhoeddus ac nad ydynt yn gyhoeddus y Cyngor a’i Bwyllgorau [mae hyn yn digwydd mewn ambell i Awdurdod]. Maent yna i “arsylwi”, e.e. a yw’r holl bapurau ar gael i’r cyhoedd? A yw'r ddarpariaeth ar gyfer y cyhoedd yn rhwydd? ac ati. Os oes materion y byddai’r Pwyllgor hwyrach yn medru eu trafod yna caiff y rhain eu dwyn o flaen y pwyllgor.

Un o’r pynciau a drafodwyd gan y Cyngor oedd "lletygarwch". Archwiliodd y pwyllgor sut y gosodwyd y terfynau, pa ymgynghori oedd yn cael ei wneud ac a oedd hawliadau aelodau’n cael eu monitro. “Os nad yw’r system yn cael ei monitro, sut ydych yn gwybod a yw'r trefniadau cyfredol yn rhesymol". Os yw'r pwyllgor yn monitro'r holl fater "lletygarwch", mae'n darparu rhyw ddilysrwydd i unrhyw ymholiadau posib’ gan y cyfryngau neu eraill.

Roedd nifer o ardaloedd eraill yr awgrymwyd y gellid eu “harsylwi" gan gynnwys presenoldeb a chraffu.

Treuliwyd y rhan fwyaf o’r awr oedd ar gael yn trafod yr eitem hon. Fodd bynnag, dilynodd y tri phwynt bwled bron iawn yn awtomatig.

<u>Rheoli Rhaglen:</u>

Pwy sy’n trefnu Rhaglen y cyfarfod? A yw’r Cadeirydd a’r aelodau annibynnol yn rhan o hyn?

Os yw’r Pwyllgor i fod yn “rhagweithiol” ac aelodau annibynnol eisiau codi a thrafod materion yn dilyn eu “harsylwadau”, a oes cyfle ar gael yn fuan iddynt cyn y cyfarfod i godi materion fel eitem ar y rhaglen?

<u>Capasiti :</u>

Capasiti – mae’r amser sydd ar gael i aelodau’r pwyllgor a swyddogion yn pennu pa mor rhagweithiol y gall pwyllgor fod.

Gwnaed sylwad gan Gyngor Dinas Caerdydd bod “archwiliad” i “letygarwch” wedi cymryd dros 9 mis iddynt ei gwblhau ond profodd i fod yn ymarferiad gwerth chweil.

<u>Arddulliau a Ffurfiau Cyfarfodydd</u>

Canfu pwyllgorau rhai Awdurdodau ei bod yn fanteisiol cael cyfle i gael trafodaethau “anffurfiol” wrth ystyried datblygu canllawiau neu archwilio mannau i’w “harsylwi” ac ati lle nad oedd angen cofnodi gan nad oedd penderfyniadau yn cael eu gwneud. Awgrymwyd bod mantais o ddefnyddio gwahanol arddulliau a ffurfiau i gyflawni nodau’r pwyllgor.

Ar y cyfan, cafwyd trafodaeth a symbylodd y meddwl ac a ddaeth i ben yn rhy fuan oherwydd prinder amser.

## Cyng. Margaret Griffith

Cafwyd gair o groeso gan Brif Weithredwr (newydd) Dinas Caerdydd.

Y siaradwr cyntaf oedd **Paul Hoey**, Pennaeth Cysylltiadau Strategol, Safonau Lloegr. Doedd ganddo fawr o newyddion da am Loegr gan ei bod yn fwriad gan y Llywodraeth i gael gwared â Safonau Lloegr fel rhan o'r rhaglen i wneud coelcerth o'r cwangos. Bydd mesur am hyn o fewn y mis a bydd dewis i Gynghorau sefydlu eu pwyllgorau eu hunain os dymunant. Roedd yn gweld diffyg cysondeb ar draws y wlad yn broblem. Mae'r Llywodraeth yn hytrach am greu system droseddol ond nid oedd yn teimlo y byddai hyn yn ateb pob problem.

Yr ail siaradwraig oedd **Kate Berry**, Swyddog Monitro Cyngor Dinas Caerdydd a Chadeirydd Cangen Cymru, Cymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr Cynghorau. Nododd mai cyfleu barn bersonol yr oedd hi ac nid yn siarad ar ran y Gymdeithas. Credai fod set o safonau a fframwaith moesau'n bwysig. Teimla rhai Aelodau mai'r unig safon yw etholiad ond mae hyn yn rhy hir yn ei barn hi. Mae'n dal i gredu fod fframwaith cenedlaethol yn angenrheidiol a bod angen i'r etholwyr fedru gael ffydd yn y penderfyniadau anodd a wneir gan Aelodau.

Y trydydd siaradwr oedd **Jeff Cotterrell**, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn. Yn bersonol roeddwn yn ei chael yn anodd iawn i'w ddeall gan nad oedd y system sain yn dda iawn. Yn amlwg roedd llawer o gydymdeimlad iddo yn yr ystafell ac o'r hyn a glywais i ganddo, mae'n ddigon hawdd i sawl Cyngor lithro i lawr llwybr tebyg i Ynys Môn. Roedd hefyd yn amau faint o gynghorwyr oedd yn cydnabod gwaith Pwyllgorau Safonau.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, **Peter Tyndall**, oedd y pedwerydd siaradwr. Prif fyrdwn ei sgwrs oedd ei bod yn hawdd iawn bod yn deg mewn cyfnod o ddigonedd ond mae'n stori wahanol iawn pan mae'n ddirwasgiad. Mae penderfyniadau anodd iawn o flaen aelodau am y blynyddoedd nesaf ac mae angen trafod pethau heb iddynt fynd yn bersonol. Mae'n rhagweld y bydd mwy o gwynion tros y cyfnod nesaf, ar sail yr hyn mae'r cyhoedd wedi'i dderbyn yn y gorffennol. Mae angen i aelodau fod â rhesymau clir a dilys am eu penderfyniadau. Rhoddodd hefyd grynodeb o lwyth gwaith ei swyddfa. Roedd yntau'n teimlo fod angen trin rhai achosion mewn llai o amser nag mewn etholiad a bod angen rhyw fath o sancsiynau. Mae egwyddorion Nolan yn sail i bethau ac mae angen cofio pam y cafwyd y rhain yn y lle cyntaf. Bellach mae sinigiaeth am y drefn wleidyddol a gall pethau fynd yn waeth oni bai fod rhyw lyffethair. Mae'n iawn i adolygu'r fframwaith ond rhaid cofio fod iddi lawer o ragoriaethau hefyd.

Y siaradwr olaf oedd **Peter Davies**, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Rhoddodd ychydig o gefndir y Panel a chrynodeb o'u llwyth gwaith. Byddai yntau'n croesawu adolygiad o'r fframwaith ond teimlai nad oedd angen cael gwared â phopeth fel yn Lloegr. Un o'r tueddiadau clir diweddar yw bod twrneiod yn mynychu gwrandawiadau. Bwriad y Panel oedd eu gwneud yn llai ffurfiol na llys barn ond nid yw hyn yn wir rŵan. Hefyd mae mwy o arbenigedd yn cael ei gwestiynu ac mae'r system yn fwy costus oherwydd hyn, gan fynd ymlaen am fwy o ddyddiau. Mae un achos ar y gweill ar y funud lle bydd 70 o dystion. Maent wedi gorfod addasu eu gweithdrefnau i gyd-fynd â'r tueddiadau hyn.

## Sesiynau Trafod

### Gwrandawiadau Pwyllgorau Safonau

Cyflwynwyd y sesiwn hon gan Peter Keith-Lucas. Nid oedd digon o amser i fynd drwy bopeth, yn arbennig y newidiadau arfaethedig yn Lloegr ac effaith hyn hefyd ar Gymru, os o gwbl. Mae hyn yn nodwedd yn aml o Weithdai, lle mae gormod o amser yn cael ei dreulio ar fanion gan ambell unigolyn ar y dechrau ac yna mae rhai adrannau'n cael eu gadael heb eu cyffwrdd o gwbl. Un o'r pethau mwyaf defnyddiol oedd y taflenni adolygu penderfyniad a'r un ar gyfer Cadeiryddion a ddosbarthwyd ar gyfer y sesiwn. Bydd y rhain yn ddefnyddiol ar gyfer unrhyw fath o wrandawiad lled-farnwrol. Pe byddai angen cynnal Gwrandawiad gan y Pwyllgor Safonau yng Ngwynedd, yna efallai y byddai'n syniad cynnal sesiwn o hyfforddiant yn defnyddio'r taflenni hyn ymlaen llaw.

### Cod Ymddygiad

Yma eto nid oedd digon o amser i fynd drwy holl sylwadau'r Ombwdsmon. Roedd hyn yn drueni gan na fu trafod o gwbl ar yr adran ar fuddiant, rhywbeth yr oedd gen i ddiddordeb ynddo. Defnyddir dau derm ffasiynol y dyddiau hyn - cylch rhinweddol a throell o anobaith. Yn y cyntaf, ceir safon uchel o ymddygiad, er nad yw hyn yn golygu dim beirniadaeth ond fod hwnnw'n adeiladol. Mae'r ail yn arwain at broblemau parhaus gydag ymddygiad. Y ddelfryd yw bod yn y cyntaf wrth gwrs. Aeth yr Ombwdsmon drwy ychydig o'r penawdau o'r Cod Ymddygiad ond bu'n rhaid gadael nifer o'r penawdau heb eu trafod. Yma eto, efallai y byddai'n fuddiol defnyddio'r sleidiau ar gyfer hyfforddiant rhyw dro.

Ar y cyfan roeddwn yn teimlo fy mod wedi cael budd o fynychu'r Gynhadledd.

## Dilys Phillips

**Gweithdy'r bore – Canllawiau ar y Cod Ymddygiad**

Cyflwynwyd y gweithdy gan Kate Berry, Swyddog Monitro Caerdydd a Peter Tyndall, yr Ombwdsmon. Y bwriad oedd egluro'r canllawiau ar y cod ymddygiad ond yn anffodus oherwydd prinder amser ni chyrhaeddwyd y rhan ar ddatgan buddiant.

Cafwyd trafodaeth ar rai agweddau o'r cod a'r canllawiau. 'Roedd nifer o'r mynychwyr yn anfodlon hefo'r prawf mae'r Ombwdsmon yn ei gosod wrth benderfynu pa gwynion i ymchwilio iddynt. Yn arbennig roedd anfodlonrwydd ynglŷn â'i safbwynt na fyddai'n ymchwilio os oedd yn tybio na fyddai'r tramgwydd yn arwain at gosb gan y Pwyllgor Safonau. Mynegodd sawl un oedd yno eu bod yn cael trafferth hefo'r agwedd hon ac y dylai'r mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau i'w benderfynu. Mynegodd eraill fod hyn yn golygu bod rhai achosion o dorri'r cod yn mynd heb eu cosbi. Dadl yr Ombwdsmon ydi ei bod yn well i faterion gael eu troi i lawr ganddo ef na llwytho'r baich ar bwyllgorau safonau, bod hyn yn fodd i sicrhau cysondeb ac nad yw peidio cynnal ymchwiliad yn gyfystyr â dweud nad yw'r cod wedi ei dorri.

Diddorol hefyd oedd gweld bod disgwyl i swyddogion monitro roi gwybod i'r Ombwdsmon os oes rhyw wybodaeth ychwanegol nad yw wedi ei gymryd i ystyriaeth - yn arbennig pan mae'n anfon llythyr i ddweud nad yw'n bwriadu ymchwilio i gŵyn.

**Gweithdy'r p'nawn – Ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol newydd**

'Roedd y gweithdy yma'n canolbwyntio ar y dulliau newydd electroneg o gyfathrebu e.e. Facebook, Twitter ayb. 'Roedd y cyflwynydd yn gefnogwr brwd o'r dulliau cyfathrebu yma ac yn wybodus ynglŷn â'u potensial. Roeddwn yn teimlo fod y dulliau yn cael eu "gwerthu" i ni fel ffordd o ychwanegu at waith y Cyngor ac fe elwais rywfaint ar ddysgu mwy amdanynt.

Ond, o gofio mai cynhadledd ar safonau oedd hon, siomedig iawn oedd yr elfen oedd yn ymwneud â sut y gellid monitro neu reoli cynnwys y cyfathrebu a pha gamau y gellid eu cymryd os oedd aelod yn camddefnyddio'r cyfryngau newydd. 'Doedd y cyflwynydd ddim wedi rhoi llawer o ystyriaeth i'r agwedd hon o'r pwnc a chefais yr argraff nad oedd fawr y gellid ei wneud os oedd gynghorydd yn benderfynol o ddefnyddio'r cyfryngau newydd i dorri'r cod ymddygiad. O'r safbwynt hwn nid oedd y gweithdy'n fuddiol iawn.

**Argraffiadau cyffredinol o'r diwrnod**

Ar y cyfan cefais y diwrnod yn fuddiol - yn arbennig y sesiwn bore hefo'r gwahanol siaradwyr. Byddai wedi bod yn dda cael cyfle i gwestiynau yn ystod y sesiwn yma (credaf mai dyna'r bwriad ond aeth amser yn brin). 'Roedd presenoldeb da yn y gynhadledd, er braidd yn wan o'r Gogledd, ac roedd trefn y rhaglen yn golygu fod llawer iawn wedi gadael cyn y sesiwn olaf. Ar y diwedd cafwyd cyfle i gael trafodaeth banel hefo Jeff Cotterell (Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn), Kate Berry a Peter Tyndall. Y peth mwyaf trawiadol i mi ddaeth allan o'r sesiwn gloi yma oedd y neges nad oedd gallu cyfreithiol ar ei ben ei hun yn ddigon ar gyfer Swyddog Monitro, mae angen meddu ar sawl sgil arall yn ogystal!

## Siôn Huws

**Gweithdy 'Gwrandawiadau Pwyllgorau Safonau a Moeseg'**

Cynhaliwyd hwn gan Peter Keith-Lucas, cyn Brif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn llywodraeth leol, sydd 'nawr yn bartner gyda chyfreithwyr Bevan Brittan LLP. Y prif bwyntiau o'r gweithdy yma oedd:

- Cost cynnal ymchwiliad (£5-10K) ac felly pwysigrwydd bod yn bwyllgor rhagweithiol.
- Pwysigrwydd proses o gasglu gwybodaeth a pharatoi cyn y gwrandawiad, er mwyn sicrhau mai'r materion perthnasol yn unig y canolbwyntir arnynt yn y gwrandawiad ei hun.
- Trefn ysgrifenedig ar gyfer ymchwilio i honiad a chynnal gwrandawiad (gan gynnwys 'sgript' i'r Cadeirydd)
- Roedd PK-L yn ffafrio cael panel o 4 i gynnal gwrandawiad gan fod hyn yn llai ffurfiol a bygythiol. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Pwyllgor ail-wrando achos pe bai angen.
- Pwysigrwydd cyfleu 'pwyntiau i'w dysgu' i'r Cyngor ar ôl y gwrandawiad gan mai prif swyddogaeth y Pwyllgor yw gwella ymddygiad.

**Gweithdy 'Eisiau bod yn Swyddog Monitro?'**

Cynhaliwyd hwn gan ddirprwy Swyddog Monitro Cyngor Caerdydd. Ychydig yn siomedig oedd y gweithdy o safbwynt dysgu unrhyw beth newydd. Serch hynny, y prif bwyntiau o'r gweithdy oedd:

- Nad yw'n hawdd bod yn Swyddog Monitro!
- Bod gorfod delio a phroblemau sy'n codi yn ystod cyfarfodydd pwyllgor yn medru bod yn arbennig o anodd.
- Yr angen am hyfforddiant i swyddogion oedd yn dymuno bod yn swyddogion monitro neu sy'n gorfod gweithredu ar ran y swyddog monitro.
- Bod ACSeS yng Nghymru (sy'n cynrychioli prif swyddogion cyfreithiol a swyddogion monitro) yn ystyried datblygu hyfforddiant o'r fath.